OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 1360 (Cy.115)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) (Diwygio) 2010

Gwnaed - - - -	*24 Ebrill 2010*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*27 Ebrill 2010*
Yn dod i rym - -	*25 Mai 2010*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**) a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi.

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion yr adran honno mewn perthynas â mesurau sy'n ymwneud â bwyd (gan gynnwys diod) gan gynnwys cynhyrchu sylfaenol o ran bwyd(**2**).

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) (Diwygio) 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 25 Mai 2010.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn ystyr "y Prif Reoliadau" ("*the Principal Regulations*") yw Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2009(**3**).

Diwygio'r Prif Reoliadau

3.—(1) Diwygir y Prif Reoliadau'n unol â pharagraffau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn nhrydydd paragraff y rhaglith—

(a) yn y testun Saesneg, yn lle "to the Secretary of State" rhodder "to the Welsh Ministers";

(**1**) 1972 p.68. Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (2006 p.51).

(**2**) O.S. 2005/1971.Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi, mae swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan y dynodiad hwn yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(**3**) O.S. 2009/1557 (Cy.152).